

Cytundebau rhyngwladol

Y cytundebau a ystyriwyd ar 13
Rhagfyr 2021

Ionawr 2022



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU ar Gymru o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 13 Rhagfyr 2021, gwnaethom ystyried tri chytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Dyma'r cytundebau a ystyriwyd gennym:
 - Cymorth Credyd Swyddogol y DU/Wcrain ar gyfer Datblygu Galluoedd Llynges yr Wcrain
 - Cytundeb Cydweithrediad Amddiffyn y DU/Kenya
 - Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y DU/Awstralia/UDA am Yriant Niwclear Llyngesol
7. Cytunwyd i nodi'r tri chytundeb er gwybodaeth. Nodir rhagor o fanylion am bob un o'r cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Rhagfyr 2021

2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Cymorth Credyd Swyddogol y DU/Wcrain ar gyfer Datblygu Galluoedd Llynges yr Wcrain

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 22 Tachwedd 2021. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 11 Ionawr 2022.

9. Nod y cytundeb hwn yw caniatáu i'r Wcrain gael gaffael ar gyllid a gefnogir gan Gyllid Allforio y DU mewn cysylltiad â'i brosiect i gaffael galluoedd morwrol gan contractwyr cymwys yn y DU. Mae hyn yn cynnwys caffael offer llyngesol, megis llongau gwrth-fesur mwyngloddiau, llongau taflegrau a systemau arfau. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn nodi y bydd y prosiect yn caniatáu i'r Wcrain helpu i atal bygythiadau rhanbarthol wrth gynnig buddion i ddiwydiant y DU.

10. Mae'r adran ar ddatganoli sydd fel arfer wedi'i chynnwys mewn Memoranda Esboniadol i gytundebau rhyngwladol ar goll o'r cytundeb hwn. Felly, nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys a ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r cytundeb hwn a barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd.

11. Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth a bod gwybodaeth sy'n ymwneud â datganoli, sydd fel arfer yn cael ei chynnwys fel mater o drefn, ar goll.

Cytundeb Cydweithrediad Amddiffyn y DU/Kenya

12. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 25 Tachwedd 2021. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 17 Ionawr 2022.

13. Nod y cytundeb hwn yw darparu trefniadau parthed statws lluoedd ar gyfer personél gwasanaeth a'u dibynyddion i wledydd ei gilydd i gynnal gweithgarwch cydweithredu amddiffyn. Mae'n adnewyddu ac yn diweddarau Cytundeb Cydweithrediad Amddiffyn 2016 gyda Kenya, a ddaeth i ben ar 6 Hydref 2021.

14. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn nodi bod y cytundeb yn ymwneud â chydweithrediad amddiffyn rhwng y DU a Kenya, sy'n ymwneud yn llawn â mater a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig. O'r herwydd, nid ymgynghorwyd â llywodraethau datganoledig ynghylch ei ddrafftio.

15. Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.

Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y DU/Awstralia/UDA am Yriant Niwclear Llyngesol

16. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 29 Tachwedd 2021. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 19 Ionawr 2022.

17. Nod y cytundeb hwn yw caniatáu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar bwnc gyriant niwclear llyngesol fel rhan o gytundeb diogelwch AUKUS rhwng y tair gwlad. Byddai angen cytundeb dilynol i gefnogi'r broses o drosglwyddo offer yn ôl yr angen i ddarparu'r gallu llong danfor i Awstralia. Bydd y cytundeb hwn yn parhau mewn grym hyd at 31 Rhagfyr 2023, yn amodol ar gyfnod ymestyn.

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y cytundeb yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth am yriant niwclear llyngesol rhwng y DU, UDA ac Awstralia sy'n ymwneud yn llawn â mater a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig. O'r herwydd, nid ymgynghorwyd â llywodraethau datganoledig ynghylch ei ddrafftio.

19. Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.